Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru | Museums Federation Cymru

Camau tuag at ofalu am gasgliadau yn gynaliadwy

Mae Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru (Y Ffederasiwn) yn cynorthwyo ei holl aelodau i gymryd camau i wella eu cynaliadwyedd a'u gofal o gasgliadau. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn her sy'n bygwth dyfodol ein hamgueddfeydd.

Mae'r Ffederasiwn yn cymeradwyo'r cynllun gweithredu canlynol ac yn annog pob amgueddfa i archwilio eu harferion presennol yn erbyn y cynllun hwn ac ymrwymo i gymryd mwy o gamau i arferion cynaliadwy yn y flwyddyn nesaf.

01 Cynnal a chadw eich adeilad

Gall pawb archwilio eu hadeiladau eu hunain ac edrych am arwyddion all beri problem. Ewch allan yn y glaw a thynnu lluniau i'ch helpu i ystyried yr hyn a welwch. Rhowch rhywun yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeilad a gofynnwch iddynt gyflwyno adroddiad ar gyflwr yr adeilad. Mae gwaith ar adeiladau weithiau yn costio'n ddrud ond po hiraf y byddwch yn ei adael, y mwyaf y bydd yn ei gostio a'r mwyaf o niwed y bydd yn ei wneud i'ch casgliadau. Mae aer llaith yn ddrutach (ac yn ddwys o ran ynni) i'w gynhesu.



02 Clirio'r cafnau dŵr glaw

Nid ydym am i unrhyw un ohonoch ddisgyn oddi ar ysgolion ond gwnewch yn siŵr bod y cafnau yn cael eu gwagio o ddail, yn enwedig yn yr hydref. Os nad oes gennych ffordd dda o fynd at eich cafnau, ystyriwch osod pwyntiau penodol i osod ysgol yn ddiogel. Peidiwch ag anghofio y gallwch chi hefyd gompostio'ch tomwellt dail.

03 Cadwch y drws ar gau

Nid oes angen cadw'r drws ar agor i ddangos bod yr amgueddfa ar agor. Byddwch yn greadigol, yn gadarnhaol ac yn groesawgar: a oes arwydd y gallwch ei roi allan sydd hefyd yn fan da i dynnu hunlun? A allwch hongian arwyddion sy'n rhoi gwybodaeth am fynediad mewn sawl iaith, taliadau mynediad, lleoliad mynedfa gwastad ac a oes gennych doiledau hygyrch?

04 Diffodd y Goleuadau

Os nad oes unrhyw un yn yr ystafell peidiwch â chadw'r goleuadau ymlaen. Bydd hyn yn lleihau'r difrod pylu i'ch casgliadau ac yn lleihau eich biliau ynni. Goleuadau LED o ansawdd da yw'r ateb o ran goleuo effeithlon.

05 Rheoli'r fynedfa

Mae pobl yn dod â lleithder, baw, a phlâu, yn enwedig ar ddiwrnodau gwlyb, ac mae digonedd o ddiwrnodau gwlyb gennym yng Nghymru! Gwnewch yr hyn a allwch i atal y pethau hyn rhag cael eu cludo o gwmpas eich amgueddfa. Camau megis cael stand ymbarél, mat gwirioneddol fawr wrth y drws, a / neu barc bygi a throli. Os oes gennych chi gyntedd, meddyliwch sut y gall pobl addasu eu hunain yn gyfforddus o'r tu allan i'r tu mewn.

06 Creu parthau

Rhaid deall sut mae pob gofod yn cael ei ddefnyddio, gofyn a yw gofod yn lle cyhoeddus neu beidio ac a oes casgliadau yn y gofod hwnnw neu beidio, a chreu 4 parth. Mae casgliadau yn sensitif i leithder a phobl i dymheredd, targedwch eich defnydd o ynni dim ond lle mae ei angen. Mewn ardaloedd lle nad yw'r casgliadau yn rhai cyhoeddus, canolbwyntiwch ar systemau goddefol. Gwnewch gynllun o'r llawr ac anelwch at symleiddio'ch parthau a'ch bywyd! Gwnewch yn siŵr bod pawb sydd â mynediad yn cefnogi defnyddio gofod yn ofalus er mwyn bod yn gynaliadwy.

07 Cadwch y drws ar gau 2

Bydd cadw'ch storfa dim ond ar gyfer storio casgliadau yn caniatáu i chi greu amgylchedd sefydlog drwy ddefnyddio cyn lleied â phosibl o ynni. Peidiwch â chael eich temtio i storio deunydd arddangos diangen, deunydd gwerthu yn y siop, cyflenwadau'r swyddfa, neu hyd yn oed ymweld ag anifeiliaid anwes yn eich storfa!

08 Cael trefn ar bethau

Mae'n haws cadw eich casgliadau yn ddiogel mewn man taclus a threfnus. Peidiwch â gadael pethau ar y llawr, peidiwch â gorlenwi silffoedd, a sicrhau ei bod yn hwylus glanhau o gwmpas, uwchben ac o dan bopeth! Bydd hyn yn help i atal pla a lleihau'r risg o lwydni. Os yw eich storfa yn hygyrch i ddefnyddiwr cadair olwyn, yna rydych hefyd bron yn bendant yn diogelu eich casgliadau yn ffisegol.

Camau tuag at ofalu am gasgliadau yn gynaliadwy

09 Rhannu'r cariad

Rhannwch eich gwaith da a dysgwch gan eraill. Chwiliwch am rwydweithiau cynaliadwyedd yn eich cymuned ac ymunwch â hwy. Rhowch adroddiad yn rheolaidd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar yr hyn a gyflawnwyd a'r heriau a wynebwyd gennych.

10 Lleisio barn

Ymchwiliwch i weld beth yw blaenoriaethau eich sefydliad a gwnewch yn siŵr bod eich arferion gofalu am y casgliadau yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau hynny. Gwnewch yn siŵr bod y sefydliad yn gwybod am fanteision y strategaeth gofal casgliadau o ran bod yn gynaliadwy.



11 Deall eich defnydd o ynni

Sicrhewch bod rhywun yn eich tîm yn deall sut mae eich system gwresogi (ac unrhyw systemau eraill o reoli amgylchedd) yn gweithio a'r modd y mae'n cael ei reoli. A oes modd newid eich gosodiadau i fod yn fwy ynni-effeithlon? Dylid monitro ac adrodd ar ddarlleniadau mesurydd a'r modd y mae eich systemau yn gweithio fel bod y staff a'r gwirfoddolwyr yn deall y modd yr ydych yn rheoli ynni. Dylid lleihau'r defnydd o offer aneffeithlon o ran ynni.

12 Targedau amgylcheddol

Dylid gosod targedau yn seiliedig ar wybodaeth ar gyfer gofalu am y casgliadau yn amgylcheddol. Sicrhewch mai dim ond ar gyfer yr ardaloedd, y casgliadau, yr amser a'r tymor y mae angen y safonau hyn arnoch chi (gweler #5). Mae diogelu rhag rhew yn ddigon ar gyfer y rhan fwyaf o gasgliadau. Mae'r rhan fwyaf o gasgliadau yng Nghymru wedi goroesi gaeafau sych a hafau gwlyb, a byddant yn goroesi amodau heb fod yn waeth na'r hyn a brofwyd yn flaenorol heb fawr ddim difrod, os o gwbl.

13 Synia dau ar waith

Dylid arbrofi drwy dreialu mesurau ynni-effeithlon megis diffoddiadau, inswleiddio, atal drafftiau, gwydro eilaidd, a gorchuddion ffenestri. Dylid gweithio law yn llaw â natur a chynllunio'r dirwedd i warchod yr adeilad.



14 Gofynion benthyciadau

Peidiwch â gofyn am unrhyw beth nad ydych yn ei ddarparu eich hunain, gofynnwch i eraill osod telerau rhesymol. Gofynnwch i fenthycwyr a yw'r mesurau rheoli yn ddigonol, rhaid osgoi teithio diangen, a herio gofynion gormodol. Rhaid cydnabod y manteision cymdeithasol o gynyddu mynediad wrth bennu amodau eich benthyciad.



15 Gwasanaethu offer

Cadwch yr amodau yn sefydlog drwy sicrhau bod eich tîm yn ymwybodol o'r modd i roi gwybod am faterion cynnal a chadw adeiladau. Dylid cadw amserlen i wasanaethu offer gwresogi a rheoli'r amgylchedd a chadw llygad a y materion hyn yn gyson. Gwnewch waith cynnal a chadw sylfaenol megis dadmer rhewgelloedd, gwirio thermostatau, a gosod lampau newydd. Mae pwyth mewn pryd yn arbed ynni.

16 Prynu a gwaredu yn gynaliadwy

Nid yw deunydd sy'n sefydlog ar gyfer casgliadau yn dirywio'n gyflym, felly wrth brynu gwnewch hynny unwaith a gwnewch hynny'n dda. Meddyliwch am oes gyfan y deunydd a brynwch: a yw'n cael ei wneud yn deg ac yn lân; sut mae'n eich cyrraedd chi; a fyddwch yn ei ddefnyddio i'w lawn ddiben; am ba hyd y gallwch ei ddefnyddio; a allwch chi neu rywun arall ei ailddefnyddio? Sicrhewch bod eich gwastraff yn cael ei waredu yn ddiogel ac yn gynaliadwy.

17 Cynllunio

Gwnewch y gwaith hwn yn hwylus drwy lunio rhestrau gwirio dyddiol, misol a blynyddol. Dylid blaenoriaethu buddion hawdd a dathlu llwyddiant. Dechreuwch ar y gwaith ond cynlluniwch ar gyfer y tymor hir hyd yn oed os yw hynny'n ymddangos yn amhosibl ar hyn o bryd. Gallai hwn fod yn brosiect hir-dymor ond da o beth yw cael nodau.

18 Anelu'n Uchel

Gall pethau fod yn wahanol yn y dyfodol felly paratowch i wireddu eich breuddwydion. Gallai hyn gynnwys gwaith adeiladu, ailosod, prosiectau newydd, partneriaethau newydd, neu dargedau uchelgeisiol. Peidiwch â theimlo'n chwithig eich bod yn gwybod beth yw eich nod. Heb ofyn, chewch chi ddim byd, ac os oes gennych rywbeth yn eich poced gefn, gallwch fod yn barod i gael y maen i'r wal os daw cyfle.

19 Os yw'n syniad da, ewch ati i wireddu hynny

Mae casgliadau amgueddfeydd yn bodoli fel y gall pobl eu defnyddio a chyfranogi. Er mwyn bod yn amgueddfa gynaliadwy rhaid i'n cymunedau weld bod gwerth yn yr hyn a wnawn. Er bod neb am i gasgliadau gael eu hesgeuluso, peidiwch â mynd mor amharod i ddangos casgliad oherwydd risg fel bod diffyg defnydd yn ei wneud yn ddiwerth. Mae hoff gasgliad yn gasgliad sy'n derbyn gofal.

20 Cynnal

Gall hyn fod yn waith caled, cymerwch amser i'ch cynnal chi a'ch tîm ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

Mae mwy o adnoddau ar gael ar wefan y Ffederasiwn: museumsfederation.cymru
Ysgrifennwyd ar gyfer Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru gan Jane Henderson a Megan De Silva.
Gyda diolch i Rhian Hall (Amgueddfa Cwm Cynon) a Jenny Mathiasson (cadwraeth Kuriosa)